

POLISI DIOGELU BRITISH TENNIS (TENIS PRYDAIN)

**GAN GYNNWYS SAFONAU, COD
YMDDYGIAD A THREFN ADRODD**

GWEITHDREFN ADRODD PRYDERON

Mae'n rhaid i unrhyw berson sydd â phryderon ynglyn â lles plentyn/oedolyn mewn perygl, neu sydd wedi clywed am gamdrin neu esgeulustod :

YMATEB Rhaid gwrando'n ofalus ar beth mae'r person yn dweud wrthy ch. Peidiwch dorri ar ei draws; gofynnwch y lleiaf posib o gwestiynau; peidiwch addo i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol.

CYFEIRIO Oes rhywun mewn perygl uniongyrchol?

OES
Ffoniwch yr heddlu (999)

YNA



NAGOES

Siaradwch â Thîm Diogelu'r LTA* (020 8487 7000) mor gynted â phosib. Os nad oes unrhyw un o'r Tîm Diogelu ar gael, ffoniwch yr NSPCC (0808 800 5000) neu Linell Rienî'r Alban (0800 028 2233). Os oes gennych chi bryderon am oedolyn, gofynnwch iddyn nhw am fanylion cyswllt eich Gwasanaethau Gofal Oedolion yr Awdurdod Lleol

COFNODI Ysgrifennwch gofnod gwrthrychol am eich pryderon yn syth gan ddefnyddio'r Ffurflen Adrodd Pryderon.

Danfônwch y ffurflen at Dîm Diogelu'r LTA o fewn
48 awr i'r pryder ddod i'r amlwg.

(safeguarding@lta.org.uk).

Gall ymdrin â phryder / datgeliad fod yn anodd yn
emosiynol. Os hoffech siarad â rhywun ar ôl mynegi
pryder / neu datgelu, cysylltwch â'r Tîm Diogelu
LTA i gael gwybodaeth am wasanaethau sydd ar
gael i'ch cefnogi.

- * Yng Nghymru gallwch gysylltu â Phennaeth Diogelu Cymru (029 2046 3335)
- * Yn yr Alban gallwch gysylltu hefyd â Phennaeth Diogelu Tennis Scotland (Tennis yr Alban) (0131 444 4154)

DIOGELU YN BRITISH TENNIS (TENIS PRYDAIN)

Mae gan bawb ohonom rôl hanfodol i'w chwarae wrth gadw plant ac oedolion yn ddiogel
rhag niwed. Wrth i ni weithio tuag at gael mwy o bobl i chwarae tenis yn fwy aml, rydym yn

cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo amgylcheddau tenis Diogel a Chynhwysol, fel bod pobl yn cael profiadau cadarnhaol wrth chwarae tenis.

Rydym yn falch bod gennym ni Bolisi Diogelu Tenis Prydain, Safonau, Cod Ymddygiad a Threfn Adrodd, sydd yn profi ein hymroddiad i ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl. Mae'r Lawn Tennis Association (y Gymdeithas Tenis Lawnt), Tennis Scotland (Tenis yr Alban) , Tenis Cymru a manau chwarae, rhaglenni, digwyddiadau ac unigolion y Tennis Foundation (Sefydliad Tenis) i gyd yn cadarnhau'r ymrwymiad yma.

Rydym yn gofyn i bawb i fod yn Bencampwyr Tenis Diogel a Chynhwysol, gan hyrwyddo tenis diogel a chynhwysol ar bob achlysur, ac i ymateb i bryderon sydd gennych am blentyn neu oedolyn.

Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bob plentyn ac oedolyn yn British Tennis (Tenis Prydain).

Diolch yn fawr.

Michael Downey, Prif Swyddog Gweithredol, Lawn Tennis Association (Cymdeithas Tenis Lawnt)

David Marshall, Prif Swyddog Gweithredol, Tennis Scotland (Tenis yr Alban)

Peter Drew, Prif Swyddog Gweithredol Tenis Cymru

Geoff Newton, Cyfarwyddwr Gweithredol, Tennis Foundation (Sefydliad Tenis)

POLISI DIOGELU

1. DATGANIAD POLISI

Mae Polisi Diogeli, Safonau, Cod Ymddygiad a Threfn Adrodd British Tennis (Tenis Prydain) yn gymwys i'r canlynol:

- The Lawn Tennis Association (LTA)
- Tennis Scotland
- Tenis Cymru
- The Tennis Foundation.

Prif nod y pedwar corff yw galluogi mwy o bobl i chwarae tenis yn fwy aml, i dyfu a chynnal y gamp fel ei fod yn ddiogel ac yn gynhwysol. Rydym wedi ymrwymo i flaenoriaethu lles pob plentyn ac oedolion sydd mewn perygl, i hyrwyddo diogelu ym mhob lleoliad tenis, rhaglenni, digwyddiad ac i bob unigolyn; eu galluogi i hyrwyddo ymagwedd ragweithiol at ddiogelu; a chynnal gofynion diogelu ar gyfer lleoliadau, rhaglenni, digwyddiadau ac unigolion y mae'r LTA, Tennis Scotland (Tenis yr Alban), Tenis Cymru a / neu'r Tennis Foundation (Sefydliad Tenis) yn rhedeg, yn achredu ac / neu yn ariannu.

Mae Tîm Diogelu yr LTA yn cefnogi Tennis Cymru, Tennis Scotland (Tennis yr Alban) a'r Tennis Foundation (Sefydliad Tennis) i ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl. Mae'r Polisi, Safonau a Chod Ymddygiad hwn yn ymdrechu i leihau lleoliadau risg ac i roi cymorth iddyn nhw wrth gynnal rhaglenni, digwyddiadau ac i gefnogi unigolion i ddarparu profiad tennis cadarnhaol i bawb. Mae'r Weithdrefn Adrodd yn amlinellu sut i ymateb i bryderon diogelu / datgeliadau.

2. TERMINOLEG

Plentyn: person dan 18 oed.

Sylwer bod rhai deddfau yn yr Alban yn diffinio plentyn fel person o dan 16 oed. Fodd bynnag, os oes unrhyw bryder diogelu, gaiff unrhyw un o dan 18 oed ei ystyried fel plentyn oni hysbysir hwy'n wahanol gan Dîm Diogelu yr LTA.

Oedolyn sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod: oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth; yn dioddef, neu mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod; ac oherwydd eu hanghenion gofal a chymorth ni allan nhw amddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth neu esgeulustod gwirioneddol neu bosibl.

Diogelu plant: amddiffyn plant rhag camdriniaeth ac esgeulustod, atal amhariad iechyd neu ddatblygiad plant, gan sicrhau eu bod yn tyfu i fyny mewn amgylchiadau sy'n gyson â darparu gofal diogel ac effeithiol, a chymryd camau i alluogi pob plentyn i gael y cyfleoedd bywyd gorau.

Diogelu oedolion mewn perygl: diogelu oedolion rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Galluogi unigolion i gyflawni'r canlyniadau sydd o bwys iddyn nhw yn eu bywyd; i amddiffyn eu hawl i fyw mewn diogelwch, heb gamdriniaeth ac esgeulustod. I rymuso a'u cefnogi i wneud dewisiadau, cadw'n ddiogel a chodi unrhyw bryderon. Gan ddechrau gyda'r dybiaeth bod unigolyn yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau am ei lles ei hunan, i gymryd camau cyfrannol ar ei rhan yn unig os yw rhywun heb y gallu i wneud penderfyniad; os ydyn nhw'n agored i risg sy'n bygwth bywyd; neu fod rhywun arall mewn perygl o niwed; neu fod trosedd wedi'i chyflawni neu'n debygol o gael ei chyflawni.

(Gweler atodiad A am eirfa llawn o'r termau)

3. CWMPAS

Mae'r Tennis Foundation (Sefydliad Tennis) yn gweithredu ar draws y DU (Lloegr, Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw); mae'r LTA yn gweithredu ar draws Prydain Fawr (Lloegr, Cymru, yr Alban), Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw; mae Tennis Scotland (Tennis yr Alban) yn gweithredu yn yr Alban; mae Tennis Cymru yn gweithredu yng Nghymru.

Mae gan bob sefydliad gyfrifoldeb diogelu uniongyrchol dros:

- Staff, ymgynghorwyr, hyfforddwyr a'r swyddogion maen nhw'n eu cyflogi;
- Gwirfoddolwyr, yn cynnwys aelodau'r bwrdd a chynghorwyr maent yn eu recriwtio;
- Lleoliadau maent yn berchen;
- Digwyddiadau a rhaglenni maent yn eu rhedeg;
- Sicrhau bod pob gofynion achredu yn cael eu bodloni gan hyfforddwyr, swyddogion a lleoliadau achrededig.

Mae pob sefydliad yn argymhell a chefnogi datblygu arferion diogelu da ar gyfer:

- Hyfforddwyr, swyddogion a lleoliadau achrededig;
 - Chwaraewyr, rhieni a gofawyr;
 - Gwirfoddolwyr sy'n cael eu recriwtio gan sefydliadau eraill;
 - Lleoliadau sy'n cael eu llogi gan neu ar ran y LTA, Tennis Scotland (Tennis yr Alban), Tennis Cymru a / neu'r Tennis Foundation (Sefydliad Tennis)
- a
- Digwyddiadau a gefnogir gan y LTA, Tennis Scotland (Tennis yr Alban), Tennis Cymru a / neu'r Tennis Foundation (Sefydliad Tennis)

Mae'r Polisi, Safonau, Cod Ymddygiad a'r Weithdrefn Adrodd hwn yn unol â deddfwriaeth genedlaethol ac yn berthnasol ar draws y DU, i bob person a lleoliad y mae gan yr LTA, Tennis Scotland (Tennis yr Alban), Tennis Cymru a / neu'r Tennis Foundation (Sefydliad Tennis) gyfrifoldeb diogelu uniongyrchol.

Mae canllawiau ar weithredu'r Safonau Diogelu yn cael eu hamlinellu yn 'Gweithredu Safonau Tennis Diogel a Chynhwysol'. Mae cyngor, arweiniad a chefnogaeth ar gael gan Dîm Diogelu'r LTA.

4. CYFRIFOLDEB AM WEITHREDU'R POLISI DIOGELU, SAFONAU, COD YMDDYGIAD A'R WEITHDREFN ADRODD

CYFRIFOLDEB PAWB YW DIOGELU: NID YW PEIDIO AG YMATEB I BRYDERON DIOGELU YN OPSIWN.

Mae gan Fwrdd a Phrif Weithredwr pob sefydliad atebolrwydd cyffredinol am y Polisi, Safonau, Cod Ymddygiad a'r Weithdrefn Adrodd yma.

- Mae gan yr adran weithredol gyfrifoldeb cyffredinol am ei weithredu.
- Rheolwr Diogelu'r LTA sy'n gyfrifol am ddiweddarau'r Polisi, Safonau, Cod Ymddygiad a Gweithdrefn Adrodd yma, yn unol â datblygiadau deddfwriaethol a sefydliadol; a hefyd i gefnogi Tennis Cymru, Tennis Scotland (Tennis yr Alban) ag Arweinwyr Diogelu y Tennis Foundation (Sefydliad Tennis) i ddatblygu dulliau rhagweithiol o ddiogelu ac ymateb i bryderon diogelu / datgeliadau.
- Rheolwr Diogelu'r LTA, ac Arweinwyr Diogelu Tennis Cymru, Tennis Scotland (Tennis yr Alban) , a'r Tennis Foundation (Sefydliad Tennis) sy'n gyfrifol am gefnogi eu timau i nodi lle mae angen cymorth diogelu; i weithredu gweithdrefnau yn eu tîm diogelu; ac i gefnogi Tîm Diogelu'r LTA i gynnal archwiliad diogelu ar draws y sefydliad bob blwyddyn.
- Mae Pwyllgor Amddiffyn a Diogelu yn cynnwys arbenigwyr annibynnol a chynghorwyr yr LTA sy'n gyfrifol am gynghori a gwneud penderfyniadau ar achosion diogelu, yn unol â'r Polisi, Safonau, Cod Ymddygiad a Gweithdrefn Adrodd yma. Sefydlwyd y Pwyllgor gan yr LTA a gaiff ei oruchwylio gan yr LTA ond gallai adolygu achosion diogelu o bob un o'r pedwar sefydliad.
- Mae pob aelod o'r staff, ymgynghorwyr, hyfforddwyr, swyddogion a gwirfoddolwyr yn gyfrifol am godi pryderon diogelu / datgeliadau gyda'r Tîm Diogelu neu'r Arweinwyr Diogelu fel yr amlinellir yn y Weithdrefn Adrodd Pryder.
- Mae chwaraewyr, rhieni a gofalwyr yn gyfrifol am gynnal y Weithdrefn Adrodd a Chod Ymddygiad Diogelu a Chynhwysol.

Lle mae pryder diogelu/datgelu:

- Mae'r unigolyn sy'n dod i wybod am, yn clywed am, neu yn dod yn ymwybodol o'r pryder / datgeliad yn gyfrifol am ddilyn y Weithdrefn Adrodd Pryderon
- Mae'r Arweinwyr Diogelu yn gyfrifol am roi gwybod am bob pryder diogelu i Dîm Diogelu'r LTA
- Mae Tîm Diogelu'r LTA yn gyfrifol am asesu pob pryder diogelu / datgeliadau sy'n dod i'w sylw. Gan weithio gyda'r Arweinwyr Diogelu mae'n rhaid iddyn nhw ddilyn pob achos fel y bo'n briodol, gan roi blaenoriaeth er lles y plentyn / oedolyn mewn perygl ar bob adeg. Yn ddibynnol ar y pryder/datgeliad gellir gyfeirio'r achos at:
 - yr heddlu os oes argyfwng (999);
 - Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant yr Awdurdod Lleol os oes pryder/datgeliad ynghylch plentyn;
 - Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion yr Awdurdod Lleol os oes pryder/datgeliad ynghylch oedolyn mewn peryg;
 - Swyddog dynodedig (Lloegr a Chymru); Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cenedlaethol am bryderon/datgeliadau ynglŷn âg aelod staff, ymgynghorydd, hyfforddwr, swyddog neu wirfoddolwr; a/neu
 - Pwyllgor Diogelu ac Amddiffyn yr LTA i gael cyngor a phenderfyniadau.

5. ACHOSION O DORRI'R POLISI DIOGELU, SAFONAU, COD YMDDYGIAD A GWEITHDREFN ADRODD

Gall dorri'r Polisi a / neu fethiant i gydymffurfio â'r cyfrifoldebau a amlinellir, arwain at y canlynol gan yr LTA, Tennis Scotland (Tennis yr Alban), Tennis Cymru a / neu'r Tennis Foundation) Sefydliad Tennis:

- Staff - camau disgyblu gall arwain at ddiswyddo posibl a chamau cyfreithiol;
- Ymgynghorwyr contract, swyddogion a hyfforddwyr - terfynu rolau presennol ac yn y dyfodol o fewn y pedwar sefydliad a chamau cyfreithiol posib;

- Gwirfoddolwyr, gan gynnwys cynghorwyr ac aelodau bwrdd - terfynu rolau presennol ac yn y dyfodol o fewn y pedwar sefydliad a chymau cyfreithiol posib.

Fe allai gweithredoedd staff, ymgynghorwyr, gwirfoddolwyr, swyddogion, hyfforddwyr, lleoliadau, a / neu ddigwyddiadau y tu allan i'r LTA, Tennis Scotland (Tennis yr Alban), Tennis Cymru a / neu'r Tennis Foundation (Sefydliad Tennis) sy'n cael eu gweld yn gwrth-ddweud y polisi hwn, gael eu hystyried yn groes i'r polisi hwn.

Pan fo apêl yn cael ei chyflwyno mewn ymateb i benderfyniad diogelu a wnaed gan Dîm Diogelu a Pwyllgor Amddiffyn a Diogelu'r LTA, gellir apelio at gorff annibynnol fel Sport Resolutions. Mae eu penderfyniad yn derfynol.

6. POLISI'AU CYSYLLTIEDIG A CHANLLAWIAU

- Gweithredu'r Safonau Tennis Diogel a Chynhwysol
- Gweithdrefnau Diogelu Tennis Prydain
- Polisi canu cloch
- Polisi diogelu data
- Polisi recriwtio
- Polisi gwirfoddolwyr
- Polisi cofnodion troseddol
- Polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

SAFONAU TENIS DIOGEL A CHYNHWYSOL

Nod y safonau yw gosod lefel sylfaenol o arferion i hyrwyddo a chefnogi diogelu a chydraddoldeb mewn tennis. Wrth weithredu'r Safonau Tennis Diogel a Chynhwysol bwriedir eu defnyddio ochr yn ochr â'r Polisi, Cod Ymddygiad a'r Weithdrefn Adrodd yma ; a'r Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

SAFON 1

Mae gennym ni bolisiau Diogelu a Chydraddoldeb a Chod Ymddygiad sy'n berthnasol i bob aelod staff, ymgynghorwyr, hyfforddwyr, swyddogion, gwirfoddolwyr, lleoliadau a digwyddiadau.

- Mae pob aelod staff, ymgynghorwyr, hyfforddwyr, swyddogion, gwirfoddolwyr, lleoliadau a digwyddiadau yn dilyn ein Polisiau Diogelu a Chydraddoldeb, Safonau, Cod Ymddygiad a Gweithdrefn Adrodd.
- Mae ein polisiau a'n gweithdrefnau yn cael eu hasesu ar gyfer risg, eu monitro a'u diweddarau.

SAFON 2

Rydym yn grymuso plant ac oedolion i greu amgylcheddau tenis diogel a chynhwysol, ar, ac oddi ar y cwrt tenis.

- Rydym yn cefnogi pawb i gynnal gwerthoedd Chwarae Teg: sef mwynhau a dangos parch
- Mae gwybodaeth, adnoddau a chanllawiau ar sut i aros yn ddiogel, i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac i roi gwybod am unrhyw bryderon yn hawdd eu defnyddio, eu deall a'u gweithredu.
- Mae Timau Diogelu a Thimau Cydraddoldeb ar gael gan yr LTA; mae Swyddogion Lles penodol yn lleoliadau Tennismark; a swyddogion penodol sy'n gyfrifol am greu amgylcheddau tenis diogel a chynhwysol mewn digwyddiadau a rhaglenni a gynhelir gan yr LTA, Tennis yr Alban, Tennis Cymru a'r Sefydliad Tennis.
- Mae plant ac oedolion yn cael eu hannog i sôn am unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch eu hunain neu eraill; mae'r sawl sydd yn cofnodi'u pryderon yn cael ei ddiogelu a'i gefnogi.

SAFON 3

Rydym yn blaenoriaethu recriwtio, cynefino, hyfforddiant a chefnogaeth ddiogel a chynhwysol.

- Mae ceisiadau, cyfweiliadau a chyfeiriadau cymwys yn mynd i'r afael â gofynion ac agweddau diogelu a chydraddoldeb.
- Fe gaiff pob aelod staff cymwys, ymgynghorwyr, gwirfoddolwyr, swyddogion a hyfforddwyr achrededig, gwiriad cofnodion troseddol.
- Fe gaiff pob aelod staff yr LTA, Tennis Scotland (Tenis yr Alban), Tenis Cymru a staff y Tennis Foundation (Sefydliad Tenis) , ymgynghorwyr, gwirfoddolwyr, swyddogion, hyfforddwyr achrededig a Swyddogion Lles mewn lleoliadau Tennismark, hyfforddiant diogelu priodol a chefnogaeth barhaus.

SAFON 4

Rydym yn gwarchod gwybodaeth gyfrinachol pobl ynglŷn â diogelu a chydraddoldeb.

- Mae gwybodaeth gyfrinachol sy'n ymwneud â diogelu a chydraddoldeb yn cael ei:
 - storio'n ddiogel
 - gyrchu a'i storio'n ddiogel
 - ei rannu'n ddiogel ac yn briodol.

SAFON 5

Rydym yn rhoi sylw i bryderon diogelu a gwahaniaethu ar unwaith, gan roi blaenoriaeth i les plant ac oedolion mewn perygl.

- Mae holl bryderon, gan gynnwys pryderon ar-lein (seiber-fwlio, sextio, meithrin perthynas amhriodol ar-lein a phob math arall o gam-drin ar-lein) yn cael eu cydnabod, eu cofnodi ac yn derbyn ymateb.

- Mae holl bryderon /honiadau diogelu a gwahaniaethu a wneir ynglŷn ag aelod staff, ymgynghorwyr, gwirfoddolwyr, swyddogion, hyfforddwyr achrededig a Swyddogion Lles, lleoliad neu digwyddiad yr LTA, Tennis Scotland (Tennis yr Alban), Tennis Cymru a staff y Tennis Foundation (Sefydliad Tennis) yn dilyn ein gweithdrefnau disgyblu, a gellir danfon adroddiad i awdurdodau allanol.
- Gaiff pob achos o bryder eu hadrodd ar unwaith, gan ddilyn y Weithdrefn Adrodd Pryderon.
- Rydym yn meithrin dull cydweithredol o ddiogelu a chydraddoldeb ar draws y sefydliad a chydag asiantaethau eraill.

COD YMDDYGIAD DIOGEL A CHYNHWYSOL

- Blaenoriaethu lles pob plentyn ac oedolyn bob amser.
- Byddwch yn ddelfryd ymddwyn cadarnhaol. Gwnewch pethau gyda gonestrwydd, hyd yn oed os nad oes unrhyw un yn sylwi.
- Ceisio creu amgylchedd diogel a chynhwysol ar ac oddi ar y cwrt chwarae gan hybu gwerthoedd Chwarae Teg sef mwynhau a pharchu pobl eraill.
- Gwerthfawrogi a dathlu amrywiaeth a ceisiwch eich gorau i ddiwallu anghenion unigolyn.
- Cadwch ffiniau clir rhwng eich bywyd proffesiynol a phersonol, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol.
- Gwnewch yn siwr fod gennych y caniatad perthnasol oddi wrth rieni/gofalwyr, plant ac oedolion cyn tynnu lluniau a fideo a'u defnyddio.
- Sicrhewch fod eich rolau a'ch cyfrifoldebau eich hun, a rhai pawb yr ydych yn gyfrifol amdanynt, yn cael eu hamlinellu'n glir a bod gan bawb y wybodaeth, hyfforddiant a chymorth i'w cyflawni.
- Os yn bosib, peidiwch bod ar eich pen eich hun gyda phlentyn neu oedolyn mewn peryg.
- Peidiwch â cham-drin, esgeuluso, gwneud niwed i unrhyw un neu wahaniaethu yn erbyn unrhyw un; neu weithredu mewn ffordd a allai gael ei ddehongli fel y cyfryw*
- Dyw gwneud dim byd DDIM yn opsiwn: rhaid mynegi eich pryderon neu ddatgeliad mor gynted â phosib gan ddilyn y Weithdrefn Adrodd Pryderon. Os oes unrhyw un mewn peryg ar hyn o bryd, ffoniwch yr heddlu (999)

* Mae'n anghyfreithlon i gael perthynas â rhywun sydd o dan 18 oed os ydych mewn swydd o ymddiriedaeth; mae'n anghyfreithlon i gael perthynas rywiol gydag unrhyw un o dan 16 oed p'un ai ei bod yn rhoi caniatâd neu beidio.

Dylai'r Cod Ymddygiad gael ei ddehongli mewn ysbryd o onestrwydd, tryloywder a synnwyr cyffredin, a'r brif ystyriaeth yw buddiannau gorau y plant ac oedolion sydd mewn perygl.

Mae'r Polisi, Safonau, Cod Ymddygiad a Gweithdrefn Adrodd hyn yn cael eu hadolygu bob dwy flynedd [neu'n gynharach os oes newid mewn deddfwriaeth genedlaethol].

Mae'r Polisi, Safonau, Cod Ymddygiad a Gweithdrefn Adrodd hyn yn cael eu hargymell i'w cymeradwyo gan:

Michael Downey, Prif Weithredwr yr LTA:

David Marshall, Prif Weithredwr Tennis Scotland (Tennis yr Alban):

Peter Drew, Prif Weithredwr Tennis Cymru

Geoff Newton, Cyfarwyddwr Gweithredol y Tennis Foundation (Sefydliad Tennis).

Dyddiad: 30/07/2015

Atodiad A: Geirfa

CAM-DRIN AC ESGEULUSTOD

- Camdrin corfforol: math o gam-drin a all gynnwys bwrw, taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldanu, boddi, mygu a thagu neu fel arall achosi niwed corfforol i blentyn neu oedolyn mewn peryg. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fo rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau, neu yn creu salwch yn fwriadol.
- Cam-drin rhywiol: mae hwn yn golygu gorfodi neu ddenu plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau cam-drin rhywiol, nid o reidrwydd yn cynnwys lefel uchel o drais, pa un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd neu beidio. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys ymosod trwy dreiddio (er enghraifft, trais rhywiol neu ryw genhedlol) neu weithredoedd anhreiddiol fel mastyrbio, cusanu, rhwbio neu gyffwrdd y tu allan i ddillad. Gall hwn hefyd gynnwys gweithgareddau digyswllt, megis annog plant i wyllo delweddau rhywiol neu gynhyrchu delweddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol, neu baratoi plentyn ar gyfer camdriniaeth (gan gynnwys drwy'r rhyngwyd). Nid dynion yn unig sy'n cyflawni camdriniaeth rywiol. Gall menywod hefyd gyflawni gweithredoedd o gam-drin rhywiol, fel y gall plant eraill.
- Cam-drin emosiynol: y cam-drin emosiynol barhaus o blentyn neu oedolyn sydd mewn perygl fel ei fod yn achosi effeithiau niweidiol difrifol a chyson yn eu datblygiad emosiynol. Gall olygu cyfleu i blentyn / oedolyn mewn perygl ei fod yn ddiwerth neu'n bod neb yn ei garu, yn annigonol, neu â gwerth ond i'r graddau y mae ef/hi yn bodloni anghenion person arall; peidio â rhoi cyfleoedd i fynegi eu barn nhw; eu distewi'n fwriadol neu'n 'gwneud hwyl' am eu pen am beth maen nhw'n dweud neu sut maen nhw'n cyfathrebu. Gall gynnwys gosod disgwyladau amhriodol i oedran neu ddatblygiad y person, gan gynnwys rhyngweithio sydd y tu hwnt i allu datblygiadol y plentyn neu oedolyn sydd mewn peryg, yn ogystal ag amddiffyn a chyfyngu archwilio a dysgu yn ormodol, neu eu rhwystro rhag cymryd rhan mewn cymdeithasu arferol. Gall gynnwys gweld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin. Gall gynnwys bwlio difrifol (gan gynnwys seiberfwlio), gan achosi i blentyn neu oedolyn i deimlo'n ofnus, mewn perygl, neu wedi eu hecsbloetio. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol yn cymryd rhan mewn pob math o gamdriniaeth, er y gall ddigwydd ben ei hun.

Esgeulustod: methiant parhaus i gwrdd ag anghenion corfforol a/neu seicolegol plentyn/oedolyn, fydd yn amharu ar eu hiechyd neu ddatblygiad. Fe all gynnwys i'r rhiant neu ofalwr fethu â:

- gynnig addysg, digon o fwyd, dillad neu le i gysgodi;

- amddiffyn y plentyn/oedolyn mewn peryg rhag niwed corfforol neu emosiynol neu berygl;
- sicrhau gofal digonol (gan gynnwys defnyddio gofalwyr anghymwys); neu
- sicrhau gofal neu driniaeth feddygol briodol.

Gall hefyd gynnwys esgeuluso, neu beidio ag ymateb i, anghenion elfennol emosiynol y plentyn neu'r oedolyn. Gall esgeuluso ddigwydd yn ystod beichiogrwydd oherwydd cam-drin cyffuriau ymysg mamau.

ENGHREIFFTIAU ARALL O GAM-DRIN AC ESGEULUSTOD OEDOLION MEWN PERYG

- Cam-drin ariannol: cael arian neu eiddo wedi'i ddwyn; sy'n cael eu twyllo; sy'n cael eu rhoi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall; a chamdefnyddio arian neu eiddo arall.
- Cam-drin ar sail gwahaniaethu: trin rhywun mewn ffordd llai ffafriol gan achosi niwed iddyn nhw oherwydd eu hoedran, rhyw, rhywioldeb, hunaniaeth o ran rhywedd, anabledd, statws economaidd-gymdeithasol, tarddiad ethnig, crefydd ac unrhyw wahaniaeth gweladwy neu anweladwy eraill.
- Cam-drin domestig: yn cynnwys cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol neu ariannol gan rywun sydd, neu sydd wedi bod, yn bartner neu'n aelod o'r teulu. Mae hwn yn cynnwys priodas dan orfod, llurguniad organau rhywiol merched a thrais yn seiliedig ar anrhydedd (gweithred o drais ar sail ar y gred bod y person wedi dod â gwarth ar eu teulu neu ddiwylliant). Nid yw cam-drin domestig o reidrwydd yn golygu cyswllt corfforol neu drais.
- Cam-drin seicolegol: gan gynnwys cam-drin emosiynol, bygythiadau o niwed neu adael, amddifadedd cyswllt, bychanu, beio, rheoli, brawychu, gorfodaeth, aflonyddu, cam-drin geiriol, ynysu neu amddifadu person rhag derbyn cymorth gwasanaethau neu rwydweithiau cefnogol.
- Cam-drin sefydliadol: pan nad yw anghenion unigolyn yn cael eu diwallu gan sefydliad oherwydd bod 'na ddiwylliant o arfer gwael neu ymddygiad ymosodol o fewn y sefydliad.
- Esgeuluso ei hunain: Ymddygiad sy'n bygwth iechyd neu ddiogelwch personol oedolyn (ond nid pobl eraill). Mae hwn yn cynnwys penderfyniad oedolyn i beidio sicrhau ei bod yn cael digon o fwyd a dillad; lloches bwrpasol, anwybyddu hylendid personol, neu

beidio cymryd meddyginiaeth (pan mae doctor yn ei rhagnodi), neu gymryd rhagofalon diogelwch priodol.

- Caethwasiaeth modern: mae hwn yn cwmpasu caethwasiaeth, masnachu mewn pobl, cam-fanteisio troseddol a rhywiol, gorfodi rhywun i weithio a chaethwasiaeth domestig. Mae pobl sy'n masnachu mewn pobl yn defnyddio pob dull posib i dwyllo a defnyddio grym i orfodi unigolion i fyw bywyd o gam-drin, caethwasanaeth a thriniaeth annynol.
- Fe all y person gael ei gam-drin mewn mwy nag un ffordd.
- Mae bwlio ac aflonyddu yn cael eu cydnabod fel mathau o gam-drin.
- Cydnabyddir llurguniad organau rhywiol merched (female genital mutilation) fel math o gamdriniaeth gorfforol, rywiol ac emosiynol yn y DU.
- Mae Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn cael ei gydnabod fel ffurf o gam-drin rhywiol lle gaiff plant eu hecsbloetio'n rhywiol am arian, pŵer neu statws.
- Cydnabyddir bod masnachu mewn plant yn gamdriniaeth, lle mae plant yn dioddef sawl math o gamdriniaeth. Caiff plant eu recriwtio, eu symud i'r DU neu o fewn y DU, yna gân nhw eu hecsploetio, eu gorfodi i weithio neu eu gwerthu.
- Mae pobl o bob diwylliant yn destun cam-drin. Ni ellir ei goddef am resymau crefyddol neu ddiwylliannol.
- Gall cam-driniaeth effeithio ar les rhywun yn syth ac fe all yr effeithiau yma barhau am amser hir. Mae nhw'n cynnwys pryder, iselder, camddefnyddio sylweddau, anhwylderau bwyta ac ymddygiad hunan-ddinistriol, troseddu ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol.
- Mae'r rhai sy'n cam-drin gan amlaf yn oedolion, yn ddynion a menwod. Ond mae plant yn gallu cam-drin plant eraill fodd bynnag.

ATODIAD B:

BETH DDYLECH WNEUD OS BYDD PLENTYN NEU OEDOLYN MEWN PERYG YN DATGELU RHYWBETH I CHI?

1. Tawelwch meddwl y plentyn neu'r oedolyn gan ddweud bod e'n iawn i roi gwybod i chi am yr ymddygiad.
2. Gwrandewch yn ofalus ac yn dawel arni hi/arno fe/
3. Peidiwch gofyn llawer o gwestiynau- a peidiwch gofyn cwestiynau arweiniol.
4. Peidiwch addo i gadw hwn yn gyfrinachol. Gwedwch wrtho/wrthi fod yn rhaid ichi ddweud wrth Dîm Diogelu'r LTA (a'r heddlu mewn argyfwng) mor gynted â phosib oherwydd bod hyn er ei lles nhw.
5. **RHOWCH WYBOD!** Os yw rhywun mewn perygl dybryd, ffoniwch yr heddlu (999), fel arall siaradwch gyda Tîm Diogelu'r LTA cyn gynted ag y bo modd. Unwaith gewn nhw'r adroddiad, bydd y Tîm Diogelu yn gweithio gyda chi i sicrhau diogelwch a lles y plentyn / oedolyn mewn perygl.
6. Os oes gennych unrhyw amheuaeth bersonol, peidiwch â gadael i hwn eich rhwystro rhag rhoi gwybod am y pryderon/ datgeliad.
7. Gwnewch gofnod ysgrifenedig gwrthrychol yn syth wedi'r sgwrs gan ddefnyddio'r Ffurflen Adrodd Pryderon. Gwnewch yn sicr eich bod yn gwahaniaethu rhwng yr hyn y mae'r person wedi dweud mewn gwirionedd a'r casgliadau y gallech fod wedi gwneud. Dylai eich adroddiad gael ei anfon at Dîm Diogelu'r LTA o fewn 48 awr o'r digwyddiad. Byddan nhw'n ei gadw'n ddiogel.